
# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MAI 1978

RHIF 49


# Gŵyl Awyr Iach



**Fe gynhelir Gŵyl Fawr Gymreig ar y Grand Avenue, Trelai ar y 10fed o Fehefin am ddau o'r gloch. Mae mwyafrif y bobl sy'n trefnu hyn yn Saesneg eu hiaith ac yn gwneud ymdrech fawr i helpu tuag at ein Prifwyl yn y Brifddinas. Fe fydd arddangosfeydd o bethau Cymreig, corau, dawnsio a bandiau yn llenwi'r ardal ar y dydd mawr hwn ac i orffen bydd disco awyr-agored yn y Rhodfa yn yr hwyr. Mae pob ysgol a sefydliad yn helpu yn yr ymgyrch yma a'r prif atyniad fydd gosod milltir o ddwygeiniogau ar hyd y rhodfa yn ystod yr Ŵyl.**

**Yn anffodus mae garddwest yng Nghoedarhydyglyn ar yr un diwrnod, a gwn y bydd llawer ohonoch yn mynd yno, ond beth am alw heibio ar eich ffordd yno neu'r ffordd nol i roi hwb ymhellach i bobl Trelai ac efallai i helpu gyda'ch dwygeiniogau sbâr!**

**Beth am i Gymry Cymraeg Caerdydd i gyd droi mas i ddangos ein diolch i'n cymwynaswyr di-Gymraeg ar y diwrnod hanesyddol hwn yn mywyd Trelai.**

**Os hoffech fanylion pellach ffoniwch: Mrs Yates, Caerdydd 592292. Dewch i gyd i gael hwyl yn yr Ŵyl!**

FALMAI GRIFFITHS

## Ennill Car

Llongyfarchiadau calonog i Alcwyn a Rhoswen Deiniol o'r Barri ar ennill car mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan gwmni teganau adnabyddus. Na, nid car tegan chwaith: *Ford Capri* o'r maint llawn a lle i bump o oedolion i deithio ynddo. Mae'n debyg fod y pâr lwcus wrthi'n prynu cymaint o docynnau raffl Eisteddfod Caerdydd ag y gallant gael hyd iddynt yn y gobaith o fod yn lwcus yn y gystadleuaeth honno hefyd ac ychwanegu *Ford Fiesta* at y carlu! Maent wedyn yn bwriadu cychwyn cwmni llogi ceir i gyd-redeg â'r cwmni awyrennau llwyddiannus iawn sydd hefyd yn perthyn i'r hen ffyrm. Pa gwmni awyrennau meddech chi? Wel, Dan-Air, siwr iawn!

EISTEDDFOD '78

Rhaghysbysiad i'ch darparu ar gyfer Eisteddfod TREGANNA.

— Eisteddfod llawn hwyl a sbri —

Anfonwch nawr am restr testunnau at: Y Warden, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy.

*NEU*, Arhoswch am fis ac fe'i cewch yn y *Dinesydd* nesaf.



Eleni mae NEGES EWYLLYS DA'r Urdd ar gân. Ysgrifennwyd hi gan Geraint Davies a Delwyn Sion. Fe fydd y neges heddwch yn cael ei chlywed ar *Fai 18.*




*Mae Canolfan yr Urdd yn enwog bellach am eu hymdrechion ym myd arlwyaeth. Yma gwelir Julie, o'r Uwch-Adran, yn archwilio'r cytundeb diweddara, sef 6 mil o "wyau'r Alban" ar gyfer cynhaliaeth 'Ali's Tartan Army' ar eu ffordd i ennill cwpan pêl-droed y byd yn yr Ariannin. Roedd y fenter arbennig hon yng ngofal 'Medwen Caterers'.*


## Ffwlbarta yn y Ganolfan

**O'r diwedd, mae'r digwyddiad mawr wrth law! Ydy, mae LLYFR FFWLBART ar fin ymddangos, yn bentwr o hwyl a chwerthin, straeon a sbri, gêmau a phosau, i blant o bob oed.**

Cynhelir seremoni arbennig yng Nghanolfan yr Urdd, nos Fawrth, Mai'r 16eg i lanshio'r llyfr — croeso i bob plentyn i ddod yno i sicrhau copi o'r gyfrol wefreiddiol hon yn chwilboeth o'r wasg am 7.30p.m.

Bydd LLYFR FFWLBART ar werth yn y siopau erbyn diwedd yr wythnos hefyd ac fe fydd ar werth hefyd ar faes yr Eisteddfod yn Llanelwedd. Felly, brysiwch i brynu ar unwaith — dim ond 30c yw'r pris, bargen y ganrif, heb os nac onibai — oherwydd mae galw mawr am y gyfrol eisoes, a rhai cannoedd o gopiau wedi eu harchebu cyn cyhoeddi hyd yn oed!





**Cynhelir arddangosfa o'r darluniau hyn, wedi'u brodio mewn sidan yn null traddodiadol y Sieiniaid, yn y Neuadd Groeso Newydd, Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, Caerdydd tan ddydd Sul, 28 Mai 1978.**

Profodd y diweddar Mrs Betty Cohen ei gallu fel darlledwr, newyddiadurwr, bardd, llenor ac artist. 'Roedd yn wraig amryddawn ac 'roedd ganddi wybodaeth eang am adar a phlanhigion. 'Roedd yn gyd-awdur llyfr ar "Growing Orchids in the Home", ac ysgrifennodd erthyglau ar amryw o agweddau cymdeithasol yr oedd ganddi ddiddordeb ynddynt.

Bu'n brodio ar hyd ei hoes ond gwyliau ar dywydd gwlyb yn Bude, Cernyw, fu'n gyfrwng i ail-ennyn ei diddordeb yn y maes hwn. Ymwelodd ag Amgueddfa Victoria ac Albert yn Llundain a darganfu y gelfyddyd Sieineaidd o ddarlunio mewn sidan. Daeth o hyd i lyfr prin, "Principles and Stitchings of Chinese Embroidery", sydd yn egluro cefndir athronyddol y gelfyddyd.

Yn artist talentog, dewisodd destunau o blith adar ac anifeiliaid o Ewrop yn ogystal â phrofi ei gallu i'r eithaf drwy ddarlunio portreadau. Pan welai wyneb a ymddangosai'n ddiddorol iddi hi, byddai'n tynnu llun ohono â phensel, ei drosglwyddo ar daffeta a'i lanw ag edau sidan tenau.

Ymhlith ei phortreadau y mae gŵyr amlwg fel Dug Caeredin, David Lloyd-George, Einstein, Yr Arglwydd Bertrand Russell ac Emlyn Williams.

### AT HOLL GYLCHOEDD CINIO CYMRAEG CYMRU

Mae Cylch Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro a Chylch Cinio Cymraeg Caerdydd yn trefnu cyfarfod i aelodau Cylchoedd Cinio Cymru ar y dydd Mercher yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd eleni. Er mwyn cael trefn ar y paratoadau a fydd Ysgrifenyddion y gwahanol Gylchoedd Cinio gystal ag ysgrifennu ataf i, Alun Daniel, 4 Erw'r Delyn Close, Penarth, cyn gynted ag y bo modd fel y gallaf anfon y manylion atynt.

Gan fod nifer y Cylchoedd Cinio a sefydlwyd wedi cynyddu'n ddirfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn, bydd yn beth dymunol a hwylus i gael rhestr gyflawn ohonynt gydag enwau a chyfeiriadau'u hysgrifenyddion er mwyn sicrhau cysylltiad agosach â'n gilydd.

ALUN DANIEL

# CALENDR YR EISTEDDFOD

**MAI 12** Cymanfa Ganu yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd, am 7.30p.m. Arweinydd: Alun Williams.

**MAI 13** Cyngerdd yn y Tabernacl, Caerdydd am 7.30p.m. Côr Meibion Cwmbach. Tocyn: £1.

**MEHEFIN 5—10** Casglu o ddrws i ddrws yng Nghaerffili a'r cylch.

**MEHEFIN 10** Garddwest yng Nghoedarhydyglyn, cartref Syr Cennydd a Ledi Traherne.

**MEHEFIN 10** Gŵyl Trelai. Corau, dawnswyr, stondinau, arddangosfeydd — a'r filltir o ddwygeiniogau — yn Grand Avenue, Trelai.

**MEHEFIN 17** Garddwest ym Mhenarth, yng nghartref Syr Alun a Ledi Talfan Davies.

**MEHEFIN 30** Dawns yr Arglwydd Faer.

**GORFFENNAF 8** Gŵyl Fawr Castell Caerdydd.

---

Os ydych yn ymweld â Chanolfan yr Urdd (os nad ydych mae'n hen bryd i chi ddechrau) fe fydd wyneb Siân Piper yn gyfarwydd iawn i chi. Heblaw am ofalu am Siop a bar coffi'r Ganolfan a chanu yng Nghôr yr Aelwyd mae Siân yn amryddawn tu hwnt ar y cwrt tenis. Ond yn ddiweddar penderfynodd mai anodd iawn fyddai iddi lwyddo fel nyrs!

Yn anffodus nid oedd ei ffrind cystal chwareuwr tenis â hi a llwyddodd i dorri'i goes wrth chwarae. Tra'r oedd Siân yn ymweld ag e yn ysbyty'r Waun gofynwyd iddi estyn y botel i glaf gerllaw. Yn ei ffordd ddihafal ei hun ufuddhaodd Sian, gan gymryd yn ganiataol fod y botel yn wag. Ond gwae'r darganfyddiad — doedd hi ddim! Aeth y cynnwys ar hyd wely'r claf ...Pwy piau'r bai meddech chi?

---

**Bydd rhifyn nesa'r *Dinesydd* yn ymddangos ar y 7fed o Fehefin. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw i'r Golygydd erbyn Mai'r 20fed, fan bella, os gwelwch yn dda. Y cyfeiriad yw: 121 Heol Connaught, Parc y Rhâth, Caerdydd.**

# CHI'R DARLLENWYR

Os carech dderbyn eich copi o'r *Dinesydd* yn brydlon drwy'r post bob mis, gellwch sicrhau hynny drwy gwblhau'r ffurflen isod a danfon tanysgrifiad o £3 at y Trysorydd. Os buoch chi'n derbyn *Y Dinesydd* felly am gyfnod, ond heb ei weld ers tipyn bellach, yna mae'n bryd i chi adnewyddu eich tanysgrifiad! Heblaw am gyfleustra'r dull hwn i chi'r darllenwyr, mae tanysgrifio'n ffordd dda hefyd o gyfrannu i goffrau'r *Dinesydd* a sicrhau parhad y papur.

ENW . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

CYFEIRIAD . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Carwn dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post am flwyddyn (10 rhifyn) gan ddechrau gyda rhifyn mis..........

Amgaeaf danysgrifiad o £3

ARWYDDWYD . . . . . . . DYDDIAD . . . . .

Dychweler y ffurflen hon at: Br. Emrys Jarman,<br>Trysorydd *Y Dinesydd*,<br>198 Hillrise,<br>Llanedeyrn,<br>CAERDYDD.

# Iechyd Da — O'r Steddfod

**E.W. Meurig Williams, K.St.J., M.Ch., M.B., B.Sc., F.R.C.S.**

**(Cadeirydd Pwyllgor Ambiwlans Eisteddfod Caerdydd, a Changhellor, Priordy dros Gymru, Urdd Sant Ioan.)**

**Rydw i'n falch i gael cyfle i ddweud gair am waith Adran Ambiwlans Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Rwy'n ofni na chaiff Cymorth Cyntaf y cyhoeddusrwydd mae'n haeddu — mae tuedd i gymryd y gwaith yn ganiataol — ond credaf mai'r rheswm am hyn yw diffyg gwybodaeth ar ran y cyhoedd. Un peth sydd wedi fy mlino ers blynyddoedd lawer am yr Adran Ambiwlans, yn enwedig pan gofiaf fy mod yn gysylltiedig â mudiad Cymorth Cyntaf Urdd Sant Ioan oddi ar 1931 — yr Adran Ambiwlans yw'r unig adran nad oes ganddi gynrychiolaeth ar Gyngor yr Eisteddfod. Nid yw'r Cyngor wedi gweld yn dda i groesawu hyd yn oed Gynghorydd Mygedol yn y maes pwysig yma, er i hyn gael ei argymell yng nghyfarfod y Llys yn Eisteddfod Caernarfon mor bell yn ôl a 1959. Anodd deall ymddygiad y Cyngor yn hyn o beth.**

Cofier mai Pwyllgorau Ambiwlans lleol yr Eisteddfod sy'n gyfrifol am waith yr Adran Ambiwlans. O bryd i'w gilydd daw cwynion am y cystadlaethau i'r Priordy, ac yn awr mae Mr C.J. Parry, MBE, CSTJ, Trefnydd Priordy dros Gymru, Urdd Sant Ioan, wedi cael ei ethol fel Cynghorwr Mygedol i'r Pwyllgorau lleol. Gobeithiwn felly gael cydweithrediad mewn pob ardal bellach. Ar hyn o bryd mae rhai ardaloedd yn llawer gwell na'i gilydd. Teg, rwy'n credu, ydy egluro'n gwmws beth yw'r sefyllfa bresennol, er mwyn pwysleisio bod cymorth ymroddgar, gwirfoddol, i'w gael oddi wrth y Priordy, ac oddi wrth Urdd Sant Ioan yn gyfangwbl, i'r Pwyllgorau lleol yn ogystal â'r Cyngor yn y maes cymhleth hwn o Gymorth Cyntaf, bob amser, gan arbenigwyr yn y gwaith. Mae'n hanfodol felly i ni gyfathrebu â'n gilydd.

Y mae dwy ran i waith Adran Ambiwlans yr Eisteddfod. Yn gyntaf, mae'n rhaid trefnu a rhedeg cystadlaethau mewn cymorth cyntaf. Mae'r cystadlaethau'n agored i dimau o wŷr neu ferched neu dimau cymysg. Mae cystadlaethau hefyd i ieuenctid ac mae prawf unigol i bob cystadleuydd. Eleni mae saith cystadleuaeth a chynhelir yr ornest yn y Coleg Technegol yn Western Avenue dydd Llun, Mawrth a Mercher wythnos yr Eisteddfod.

Dydi hi ddim yn bosibl cynnal y cystadlaethau ar Faes yr Eisteddfod oherwydd mae'n rhaid cael cyfleusterau arbennig. Mae'n rhaid cael digon o ystafelloedd oherwydd mae'n rhaid gwahanu'r cystadleuwyr a chael stiwardiaid i ofalu amdanynt fel na fyddant yn dod i wybod cynnwys y prawf. Mae'n rhaid cael ystafell fawr gyfaddas i lwyfannu'r prawf. Efallai y bydd y prawf ar ben pwll glo, neu yn ymyl y ffordd, neu mewn tafarn, ac felly mae gwaith mawr yn mynd ymlaen am fisoedd lawer i gasglu'r *props*, ynghŷd â'u dodi yn eu lle mewn pryd i bob cystadleuaeth.

I redeg y cystadlaethau mae angen 12 o "gleifion", 6 o feirniaid, 15 stiward, 6 colurwr, a chlercod hefyd i bob cystadleuaeth! Mae hyn yn golygu rhyw 250 o bobl ar hyd y tri diwrnod, ac yr ydym yn disgwyl rhyw 300 o gystadleuwyr, heblaw'r dorf rydyn ni'n disgwyl i weld y cystadlaethau. Cofier hefyd fod rhaid gwneud trefniadau i borthi'r dorf fawr yma.

Mae'n bleser digymysg i mi wneud yn hysbys fod pawb — beirniaid, stiwardiaid, "cleifion" yn rhoi eu gwasanaeth yn wirfoddol. Rhoddir gwobrau ariannol gan Gyngor Urdd Sant Ioan De Morgannwg, a rhoddir Tarian yr Hospitalwyr gan Glwb Hospitalwyr Cymru.

Nid diwedd y stori yw hyn, oherwydd mae'r Adran Ambiwlans yn gyfrifol am gymorth cyntaf ar Faes yr Eisteddfod, yn y Pafiliwn, ac yng ngorymdeithiau a defodau'r Orsedd. Mae Cymdeithas Frenhinol y Groes Goch yn cydweithredu hefyd, ac wrth gwrs, mae cydweithrediad perffaith rhyngom ni a'r Weinyddiaeth Iechyd ac Ambiwlans De Morgannwg, yr Heddlu a'r Frigad Dân.

Mae pabell wedi ei neilltuo gerllaw mynedfa'r maes i fynd â'r cleifion i gael triniaeth, ac rydyn ni'n ffodus iawn yma yng Nghaerdydd fod Syr Julian Hodge wedi rhoi carafan newydd sbon i Frigâd Ambiwlans De Morgannwg Urdd Sant Ioan. Mae pob darpariaeth posib yn y garafan i roi triniaeth cymorth cyntaf, a bydd ar y maes drwy'r wythnos.

Rydyn ni'n ffodus iawn fod Urdd Sant Ioan, trwy'r Priordy dros Gymru, yn ymgymryd â'r gwaith hwn, ac rydyn ni'n ddiolchgar hefyd i aelodau Cymdeithas Frenhinol y Groes Goch am eu cyfran nhw.

Beth am y gost? Fel y dywedais, nid yw'r gwaith yn costio dimau goch i'r Eisteddfod onibai am ychydig o fân daliadau am ychydig o'r treuliau. Mae'r gweithwyr i gyd yn rhoi o'u medr a'u hamser yn hollol wirfoddol.

Mae'n bleser mawr iawn felly i mi, fel Cadeirydd Pwyllgor Ambiwlans Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru, Caerdydd 1978, ac fel Canghellor Priordy dros Gymru, Urdd Sant Ioan, dalu teyrnged wresog iawn o barch a diolchgarwch i'n noddwyr oll.

## Y GORON

Derbyniwyd cyfanrif o 28 o gynnigion yng nghystadleuaeth y goron yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd. Mae hyn yn cymharu â 31 yn Wrecsam, a 29 yn Aberteifi ddwy flynedd yn ôl. Mae'r goron yn rhodd gan Gwmni GKN Caerdydd, a chyda hi mae gwobr ariannol o 250 o bunnau, am gerdd hir neu ddilyniant o gerddi yn portreadu llencyndod.

Derbyniwyd naw awdl yng nghystadleuaeth y gadair, ar y testun "Y Ddinas". Unwaith eto mae gwobr ariannol o £250 ynghyd â chadair sy'n rhodd y tro hwn gan Gwmni HTV Cymru.

HTV Cymru hefyd sy'n rhoi Gwobr Goffa Daniel Owen, y wobr ariannol fwyaf yn Adran Lenyddiaeth yr Eisteddfod, sef £500. Fe'i cynnigir am nofel, ac mae naw o gynnigion wedi dod i law.

Fel arfer y gystadleuaeth fwyaf poblogaidd yn yr adran Lenyddiaeth yw'r Englyn. Daeth 99 o englynion i law ar y testun "Clawdd Offa". Mae 94 o englynion digri hefyd wedi dod i law ar y testun "Yn eisiau, gwraig", sef englyn ar ffurf hysbyseb.

Cystadleuaeth ddiddorol yn Eisteddfod Caerdydd yw'r un sy'n gofyn am gasgliad o atgofion am fywyd yn y Wladfa gan bobl sydd wedi byw yno ar hyd eu hoes, ac sy'n dal i fyw yn Ariannin. Mae chwech o drigolion y Wladfa wedi danfon eu casgliadau i mewn yn y gystadleuaeth hon.

## RAFFL

Mae Pwyllgor Eisteddfod Caerdydd wedi prynu modur Ford Fiesta i'w rafflo i godi arian at yr ŵyl. Prynwyd y modur am bris gostyngedig ond mae'n werth £2,288. Mae tocynnau eisoes ar werth drwy Gymru am 20c yr un, a'r gobaith yw codi cyfanswm o £15,000—£20,000. Gobeithir mynd â'r modur i'w ddangos mewn achlysuron mewn gwahanol rannau o Gymru yn ystod yr haf. Bydd y raffl yn cael ei dynnu ar faes yr Eisteddfod ym Mhentwyn ar y dydd olaf o'r Eisteddfod (dydd Sadwrn, Awst 12fed).

## GOFALWYR

Cais am gymorth yn awr. Mae angen pobl i ofalu am y clwydi mynediad yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Os yw hwn yn gyfraniad y medrwch chi ei wneud i'r Eisteddfod, rhowch eich enw os gwelwch yn dda i Mr W.H.P. Price, Prif Swyddog Cyllid Dinas Caerdydd, neu i Swyddfa'r Eisteddfod.

## PRYSURDEB

Wel, mae prysurdeb yr Eisteddfod ar gynnydd — a rhai gweithwyr pybyr yn dweud nad oes ganddyn nhw brin noson yn rhydd am wythnosau.

Dyna i chi'r rai fu'n cymryd rhan yn "Yr Wylnos", drama Cwmni'r Eisteddfod. Fe gawson nhw wythnosau o baratoi dyfal, fel y dangosodd y perfformiadau caboledig yn Theatr Bute ym mis Ebrill. Llongyfarchiadau i R. Alun Evans am gynhyrchiad a roddodd bleser mawr i'r ddwy gynulleidfa. Gresyn nad oedd yn bosibl i lawer iawn mwy o bobl weld y cwmni yn eu cynhyrchiad cyntaf. Fe fydd mawr edrych ymlaen at weld "Nos Ystwyll" gan yr un cwmni yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

# Mudiad Meithrin

**Mae pawb erbyn hyn wedi cael eu dal yn y chwyldro ymbaratoi a chodi arian at y Steddfod. Mae Ysgolion Meithrin Caerdydd eisioes wedi dechrau paratoi addurniadau pabell y Mudiad ar faes y Brifwyl ar y thema 'y ddinas'; a mae'r plant o'r bach i'r mawr i gyd yn gwybod erbyn hyn fod gŵyl yng Nghaerdydd eleni.**

Fel arfer mae'n gymaint a fedrwn ni wneud fel Ysgolion Meithrin i drefnu gweithgareddau i'n cadw ni ein hunan yn ariannol, ac anaml y bydd ysgol feithrin yn ceisio codi arian at achos arall. Er hyn, llwyddodd ysgol Feithrin Pentwyn i drefnu noson at yr Eisteddfod pan gafwyd perfformiad gwych gan Helen Field ac Ingrid Surgenor yng Ngholeg Cyncoed yn ddiweddar. Rhoddodd y ddwy eu gwasanaeth am ddim ac aeth yr elw i gyd i gronfa'r Eisteddfod.

Da clywed am ymgyrch newydd sbon yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn ystod yr Wythnos Mai 6-13. Trefnwyd 'chwaraefa' i blant oed meithrin yno. Dyma'r tro cyntaf i ymdrech o'r math yma ddigwydd yn yr iaith Gymraeg yn yr Amgueddfa er iddynt gynnal un yn Saesneg ddwy flynedd yn ôl. Dyma gyfle heb ei ail i blant bach gael chwarae a chwilota yn awyrgylch arbennig yr Amgueddfa a haedda'r trefnwyr gefnogaeth a chanmoliaeth.

Yn ôl at yr ysgolion Meithrin a'u diffygion. Mae prinder athrawon gyda chymwysterau addas yn broblem drwy'r amser. Felly, os oes unrhyw athrawes a phrofiad neu hyfforddiant i drin plant oed meithrin neu fabanod â diddordeb mewn helpu dros dro mewn ysgol feithrin (neu i weithio yno'n gyson) cysylltwch â fi — Caerdydd 757514. Byddwn yn falch o glywed oddi wrthych.

AVRIL JONES

WENALLT—Y CWMNI AROBRYN



YMLACIWCH YN EIN CERBYD
53-SEDD "VIEWMASTER" NEWYDD.
(cerbydau llai o'r un safon o
foethusrwydd ar gael hefyd.)

**CERBYDAU WENALLT**


(PERCHENNOG: J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn: Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

HADFIELD ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

# *CWRT Y CADNO*



**Mae dyfodol tîm athletau Cymru yng ngemau'r Gymanwlad yn sicr ar ôl perfformiad graenus a disglair bechgyn Ysgol Gyfun Rhydfelen! Dydd Gwener, Ebrill 14 gwelwyd prysurdeb tu allan i ystafelloedd newid yr ysgol ac fe ddaeth si i'ch parchus newyddiadurwr fod tîm o fechgyn a rhai o'r athrawon yn bwriadu rhedeg (ffyliaid) i Gwrt y Cadno, er mwyn dathlu agoriad swyddogol canolfan awyr-agored newydd yr ysgol yn Sir Gaerfyrddin.**

Cychwynwyd y ras gyda Elliw Haf (braf iawn os gai ddweud) yn cyflwyno sgrol yn cynnwys enwau'r rhedwyr i'r Seimon Reeves a gafodd yr anrhydedd (pŵr dab) o gychwyn y daith. Dilynwyd y cwrs ar hyd dyffryn Afon Taf a galwyd heibio Ysgol Pont Sion Norton ar y ffordd. Mawr fu'r croeso yno!

Y bwriad oedd fod y rhedwyr yn rhedeg rhyw filltir ar y tro ac yna'n cyfnewid gyda rhedwr arall. Buasai pob rhedwr felly'n rhedeg cyfanswm o dair milltir ar ei ben ei hun dros y ddau ddiwrnod. Amcangyfrifwyd y buasai pob rhedwr yn cymryd tua 8-9 munud i redeg milltir, *ond* nid felly y bu.

Treuliwyd noson yn hostel Llwynycelyn (dyna le braf i dreulio gwyliau — gwell na'r Ritz yn Llundain). Roedd pawb yn effro iawn ar fore Sadwrn ac yn disgwyl clywed cyfeiriad at y rhedwyr ar raglen 'Sosban' Richard Rees ond hir pob aros!

Cychwynwyd o Lwynycelyn am 10 o'r gloch gyda Huw Rhys Lewis yn rhedeg y filltir gynta. Parhawyd y daith drwy Defynnog a Phont Senni ac wedyn i Lanymddyfri.

Oherwydd fod y bechgyn yn cymryd llawer llai na'r disgwyl i redeg milltir (6 munud yn unig) bu ofnau y buasem yn cyrraedd Cwrt y Cadno ymhell cyn amser, sef 3 o'r gloch, yr agoriad swyddogol. Felly arhoswyd tu allan i Lanymddyfri am bryd o fwyd am rhyw ddwy awr. Yn y cyfamser roedd nifer o fysiau y Gymdeithas Rieni yn mynd heibio!

Aeth y rhedwyr dewr drwy Lanymddyfri, Llanwrda ac yna chyrraedd Cwrt y Cadno am dri yn brydlon gyda llygaid a chlustiau'r genedl arnom. (Roedd Hywel Gwynfryn yn ceisio cynnal cyfweliad tra'n rhedeg gyda Gerwyn Caffery.)

Ta beth, llwyddodd y bechgyn i gwblhau y daith a gynlluniwyd gan Keith Jones, Roy Davies a Gerwyn Caffrey ac ar yr un pryd i godi arian tuag at fws-mini newydd. Llongyfarchion fechgyn, ac athrawon Ysgol Gyfun Rhydfelen ar gyflawni camp arbennig.

SEIMON REEVES
(cyn brif-ddisgybl)



# colofn sbectol * SIAN

**CINOC A DIME**

O ddarllen papurau newydd y misoedd diwetha 'ma basech chi'n meddwl mai dim ond un aelod seneddol sydd gan Gymru yn San Steffan, a hwnnw'n digwydd cynrychioli Bedwellte. Gweld 'i fod e wedi dod o hyd i ffordd arall eto o gadw'i enw yn llygad y cyhoedd yr wythnos 'ma — drwy gwyno'n groch am yr arian y bwriedir ei wario ar lanhau Tŷ'r Cyffredin. Bobol annwyl — ar ôl clywed y rwdlan anwybodus, dirmygus, neu faleisus, hyd yn oed, ynglŷn â Chymru sydd wedi lliwio'r awyr yn ddiweddar — mae'n hala dyn i deimlo y byddai'r ddwy filiwn, neu beth bynnag, yn bris bach iawn i'w dalu am garthu'r sefydliad hwn — o'r tu *fewn* yn hytrach na'r tu allan.

**CINOCIO**

Mae'n siwr eich bod chi i gyd yn cofio hanes yr hogyn pren rhyfeddol hwnnw â'r trwyn anarferol o hir (a dyfai'n hwy fyth pan fyddai'n dweud celwydd). Mi faswn innau'n meddwl fod angen ufflon o drwyn hir i'w wthio i mewn i fusnes rhyun arall ddau can milltir i ffwrdd, ond mae'n amlwg fod gan yr aelod dros Fedwellte glamp o drwyn, yn ymestyn o Fynwy hyd Fôn.

Mewn sefydliad mor groendenau ynglŷn â hawliau a breintiau ac *etiquette* cyffredinol â Thŷ'r Cyffredin, rhyfedd na fyddai rhywun wedi edliw i Kinnock ei anghwrteisi eithafol yn ymyrryd mor ddigywilydd mewn materion y tu allan i'w etholaeth ef ei hun. Ond wedyn, gyda'i ragfarn gibdall yn erbyn Plaid Cymru, fasai neb wedi synnu i weld y Fandal o Fedwellte yn tresmasu'n fwriadol ar diriogaeth aelodau Arfon a Meirion. Yr hyn sy'n syndod i ddyn yw'r ffaith mai'r etholaeth y mae wedi creu cymaint o dwrw ynddi yw Môn — sedd Cledwyn Hughes, cyn-Ysgrifennydd Cymru — a Chadeirydd y Blaid Lafur Seneddol! Mae'n amlwg fod casineb Kinnock at yr iaith Gymraeg yn ei ddallu i bob ystyriaeth arall!

Mae'n siwr fod Cled yntau'n diawlio'n dawel bach wrth weld y Blaid Lafur unwaith eto (yn nhraddodiad anffodus Jorj ac Abse) yn gwneud ei gorau glas i elyniaethu'r Cymry Cymraeg hynny yng Ngwynedd sydd wedi cefnogi'r Blaid Lafur ar hyd y blynyddoedd, drwy ymosod yn filain ar yr iaith. Yn wir, mae'n amlwg fod Cled wedi cael cymaint o lond bol fel ei fod yn rhoi'r gorau i'r Senedd!

**BARDD C(IN)OCOS**

Llongyfarchiadau i'r Gŵr Cyffredin ar ei gerdd wych yn *Y Cymro* (Ebrill 25ain) yn mydryddu anerchiad Neil Kinnock i Dŷ'r Cyffredin (trueni na fase'r hybarch aelod yn deall Cymraeg er mwyn iddo gael mwynhau'r darn drosto'i hun yn lle gorfod dibynnu ar adroddiadau ail-law) — dwi ddim yn cofio chwerthin cymaint ers hydoedd. A llongyfarchiadau i'r *Cymro* yn gyffredinol am ymgyrch ardderchog i ddinoethi'r gwrionedd tila y tu ôl i'r "Kinnock File" (chwedl *Llais y Sais*) o gyhuddiadau yn erbyn athrawon a Phwyllgor Addysg Gwynedd. Dyma bedair llinell i dynnu dŵr i'ch llygaid —

*— O bopeth gwarthus glywyd sôn,*
*Yn wir, hwn yw'r gwarthusa'.*
*Fod hogia' a genod bach Sir Fôn*
*Yn pi-pi'n eu trowsusa'.*

**CINOC CINOC**

"Cinoc Cinoc"
"Pwy sy na?"
"Mei"
"Mei Pwy?"
"Mei ai go tw ddy toilet?"

BETH WELL TE?

OS BYDDWCH YN PRYNU NEU'N GWERTHU, MAE'N TALU FFORDD I YMGYNGHORI A'R ARBENIGWYR.
antiques UNLIMITED
PRYNIR EITEMAU SENGL NEU GYNNWYS TAI YN EU CRYNSWTH
7 Heol Penllin Yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Tel: 62748 neu 616415.



# Dramâu Diweddar

**ADOLYGIAD — *Yr Wylnos* gan Ladislas Fodor. Perfformiad Cwmni'r Eisteddfod.**

**Dichon fod gan y rhan fwyaf o wylwyr y ddrama hon ragdybion, os nad rhagfarnau, crefyddol. Hoeliwyd gwyrth yr atgyfodiad ar gôf pob aelod o'r gynulleidfa gan flynyddoedd o gapela, bid siwr. Tasg aruthrol anodd felly fyddai ceisio ysgwyd seiliau cred dyn drwy gynnig fersiwn cwbl wahanol o farwolaeth Crist. Dyna, yn fyr oedd problem yr erlynydd yn *Yr Wylnos* a berfformiwyd gan Gwmni Drama'r Eisteddfod yn Theatr Bute ym mis Ebrill.**

Gerbron llys barn yn yr Unol Daleithiau ceisiai'r erlyniaeth brofi mai twyll yw'r hanes am Grist atgyfodedig. Cyhuddwyd garddwr o'r enw Iahwda ap Jacob (Alun ap Brinli) o ddwyn corff yr Iesu ac ensynwyd fod rhywun wedi talu'n hael iddo am gyflawni'r weithred. Dygwyd llu o dystion i'r llys i brofi a gwthbrofi'r cyhuddiad, tra bo'r erlynydd a'r diffynydd, yn eu tro, ym ymosod yn ffyrnig ar eu tystiolaeth. Ymysg y tystion hyn gwelwyd nifer o ddilynwyr yr Iesu ynghŷd â rhai o'r trigolion lleol, yn fasnachwyr neu'n filwyr, a fu'n bresennol ym merw'r digwyddiadau.

Tybiaf mai prif amcan y dramodydd oedd argyhoeddi'r rheithgor, sef y gynulleidfa, o wirionedd gogoneddus yr hyn a fynegwyd gan Fair Magdalen a Phaul yn fwyaf arbennig. Ni allem lai nag edmygu angerdd a chadernid ffydd y ddau yma wrth i'r ddrama gyrraedd ei huchafbwynt. Ond erys yr amheuaeth, fel rhyw gwmwl yn cuddio gwir nerth yr haul, y bu achos yr erlyniaeth yn enbyd o wan. Ai gwneud hynny'n fwriadol mae'r awdur er mwyn pwysleisio grym neges yr act olaf; hynny yw, o'i wrthgyferbynnu â'r cyhuddiad yn erbyn ap Jacob, ymddengys yr achos o blaid y Crist atgyfodedig yn un diymwad. Neu, yn hytrach, ai rhagfarnau'r gwylwyr sy'n codi i'r wyneb unwaith yn rhagor ac yn ei rwystro rhag gwerthfawrogi natur simsan tystiolaeth y Cristnogion?

Roedd *Yr Wylnos* yn ddrama anghyffredin, nid yn unig o ran thema, ond hefyd o ran gwneuthuriad. Yn naturiol felly, fe haedda Cwmni Drama'r Eisteddfod bob clod am fentro ei llwyfannu, ac am lwyddo i'r fath raddau. Gan mai drama eiriol yn anad dim arall oedd hi, dibynnai effeithiolrwydd y cynhyrchiad ar allu'r actorion i ddal sylw'r gynulleidfa wrth lefaru. Deuai'r ddrama'n fwy gafaelgar wrth i'r ddrama fynd ymlaen a diau fod a wnelo hyn â safon yr actio yn y golygfeydd diweddarach. Cyflawnwyd eu gwaith yn gampus gan y ddwy fargyfreithwraig, Pat Griffiths a Rhiannon Rees. Ni ellid fod wedi rhagori ar holi chwim a chwyrn yr erlynydd pan ddaeth Mair Magdalen gerbron y llys. Cafwyd perfformiad cofiadwy gan Fair hithau, Hannah Roberts, a oedd yn amlwg yn ymdeimlo i'r eithaf â'i rhan. Cafodd portread Brinley Jenkins o Simon Pedr dderbyniad twymgalon a phwy all anghofio'r disgrifiad byw o'r pysgod yn neidio? Roedd Geraint Wyn Davies yn ddewis delfrydol fel Saul o Darsis ac fel Paul yn dilyn ei daith i Ddamascus. Deuai troedigaeth yr apostol yn gwbl gredadwy gyda llais cyfoethog yr actor dawnus hwn. Does bosib y gall y BBC fforddio i gadw cystal llais y tu ôl i'r camera am byth.

Nad anghofiwn waith glew y cynhyrchydd a'i gynorthwywyr, na'r cyfieithydd, Harri Pritchard Jones, chwaith. Gwerthfawrogodd pawb y cyfle i gael gweld y ddrama hon yn Gymraeg. Dymunwn bob llwyddiant i'r Cwmni yn y dyfodol, a gobeithio y cant lwyddiant cyffelyb wrth ymddangos yn llygad y genedl ym mis Awst.

DEWI LLWYD WILLIAMS



*Un o'n llenorion mwya toreithiog, ond dim gwobr. Gweler gyferbyn — tud. 7.*

# Amser dyn

DRAMA GYMRAEG YSGOL GYFUN RHYDFELEN

Erbyn hyn, sefydlwyd traddodiad y ddrama Gymraeg flynyddol yn gadarn yn Ysgol Gyfun Rhydfelen. Dechreuodd y traddodiad gyda chynhyrchiad arbennig o *Llyffantod* yn 1976, a'r llynedd gwelsom fechgyn, a merched, yr ysgol yn mwynhau hwyl *Agi Agi.*

Eleni, ar Ebrill 21 a 22, perfformiwyd drama Gwyn Thomas *Amser Dyn* — hanes bywyd gwleidydd 'o gri ei eni hyd ei olaf gŵyn'. Ac os cyfaddefaf na fwynheais hon cymaint â'r dramau blaenorol, wel — ar y ddrama ei hun mae'r bai, ac nid ar y cynhyrchiad.


Drama ystrydebol braidd yw hon. Mae hanesion tebyg yn rhan beunyddiol o'r bwyd-llwy dramatig a ddaw o'r teledu. Oni welsom dro ar ôl tro yrfa obeithiol crwt ifanc yn troi'n siom, a hen ŵr yn marw'n unig? Rhaid wrth rhyw weledigaeth arbennig i droi'r hen, hen lanc yn newydd eto, ac, i mi, nid oedd gweledigaeth tebyg yn *Amser Dyn.*

Ar y llaw arall, roedd yr actio yn rhywbeth i'w gofio. Gwaith anodd iawn oedd gan Huw Phillips, a gymerodd ran John Jones y prif gymeriad, ond llwyddodd i gyfleu y plentyn chwareus, y crwt meddylgar, y gwleidydd uchelgeisiol, a'r hen a'r trist — a hyn i gyd gyda symylrwydd a naturioldeb a'm synodd. Eto, seren y noson, yn fy marn i, oedd Elizabeth Evans, a gymerodd ran Megan, cariad John. Perthyn i Elizabeth nid yn unig dawn actio ond hefyd y 'presenoldeb' hwnnw ar lwyfan sy'n mynnu sylw. Mae llu o rai eraill sy'n haeddu clod hefyd — fel Seiriol Thomas — cafodd ei bortread o grwt bach gymeradwyaeth plant yr ysgol yn y gynulleidfa!

Wedi canmol yr actio, rhaid dweud mai uchafbwynt y noson oedd y cyfarfod gwleidyddol pan ddaeth nifer o'r actorion i blith y gynulleidfa a heclo a gweiddi nes i bawb ohonom deimlo'n rhan o'r cynhyrchiad. Dyma'r hyn a gofiaf — brwdfrydedd a hwyl y bobl ifanc yn creu o ddrama eilradd noson i'w chofio.

E. THOMAS

# Cyngor i'r Cyngor




**Achlysur llawenhau blynyddol erbyn hyn yw achlysur cyflwyno gwobrau blynyddol Cyngor y Celfyddydau i awduron Cymru. Llawenhau ar ddau gyfrif: yn gyntaf, am fod iaith mewn cyflwr mor argyfyngus â'r Gymraeg, iaith sydd yn byw tan warchae bellach, yn dal yn ddigon bywiog a grymus i lenorion greu ynddi weithiau llenyddol o bwys; yn eilbeth, am ein bod ni'n genedl sy'n dal i barchu ei beirdd a'i llenorion a dathlu eu gorchestion — boed hynny ym Mhafiliwn y Brifwyl neu yn amgylchiadau mwy cysurus lolfa foethus Gwesty'r Parc yng Nghaerdydd.**

Noson hapus oedd hi felly yn y Parc ddechrau mis Ebrill pan fu Syr Idris Foster wrthi'n cyflwyno gwobrau i wyth o awduron (a phump o rheini'n awduron Cymraeg) am gyfrolau a gyhoeddwyd ganddynt yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Ni ddyfarnwyd Anrhydeddau eleni, sef y gwobrau mawr y mae'r Cyngor wedi eu cyflwyno yn y gorffennol i awduron am eu cyfraniad cyffredinol i lenyddiaeth Cymru (yn hytrach nag am un gyfrol arbennig). Bellach, teimlir fod y ddyled o gydnabyddiaeth gyhoeddus yr oedd ar Gymru i rai o'i phrif awduron am eu cyfraniad disglair dros y blynyddoedd wedi ei chlirio, ac yn hytrach na phylu urddas y gwobrau hyn drwy orfod crafu o gwmpas am rywun newydd i'w derbyn bob blwyddyn, penderfynwyd mai gwell fyddai eu dyfarnu'n achlysurol o hyn ymlaen.

Y mae'r rhestr o awduron a anrhydeddwyd yn y modd hwn yn un ysblennydd: Kate Roberts, R.S. Thomas, Waldo Williams, David Jones, Saunders Lewis, Jack Jones, T.H. Parry-Williams, Rhys Davies, John Gwilym Jones, Glyn Jones, Aneirin Talfan Davies, Gwyn Jones, Euros Bowen, Richard Hughes, T.J. Morgan, Gwyn Thomas, Iorwerth Peate a Gwyn Williams. Ac eto, ni allaf fi fy hun lai na theimlo fod yna un enw amlwg ar goll o'r rhestr honno: enw'r nofelydd a esgorodd ar drydydd cyfnod y nofel Gymraeg, gan ddilyn yn olyniaeth Daniel Owen a T. Rowland Hughes — sef Islwyn Ffowc Elis.

Bu llawer o son am effaith syfrdanol cyhoeddi ei nofel gyntaf, *Cysgod y Cryman*, ym 1953. "Dyma un o ddigwyddiadau llenyddol pwysicaf y ganrif," medd Bobi Jones, er enghraifft, ac ar lefel lai aruchel, mae'n siwr mai'r nofel hon a agorodd lygaid llawer o bobl i'r ffaith fod modd darllen rhyddiaith Gymraeg er mwynhad ac nid o ran dyletswydd yn unig.

Mae'n siwr fod gan y rhan fwyaf ohonom ein hatgofion personol am ddarganfod Islwyn Ffowc Elis. Fy atgof bennaf i yw gweld fy Nain — darllenwraig frwd o fewn terfynau gweddol gul, yn mwynhau cofiannau ac atgofion, Y Tyst a'r Beibl, ond heb fod ganddi lawer i'w ddweud wrth nofelau — yn ymgolli am oriau mewn rhyw lyfr mewn siaced-lwch las ag arno'r geiriau "Yn Ôl i Leifior". Minnau, yn ddeng mlwydd oed, yn methu'n lân a deall beth oedd "lleifior" — rhywbeth i'w wneud â gwaith, neu'r cynhaeaf hwyrach? — ac yn teimlo braidd yn ddig wrth y gyfrol hon oedd â'r gallu i ddenu holl sylw Nain (y cawn i gymaint ohono fel arfer!) am oriau bwygilydd. Yn y man, fy nhro i oedd hi i lwyr ymgolli yn nofelau'r storïwr digyffelyb hwn, a rhaid cyfaddef mai astudio *Cysgod y Cryman* oedd yr unig lygedyn o oleuni yn niflastod cwrs Cymraeg lefel 0.

Heb son am esgor ar gyfnod newydd o safbwynt denu pobl i ddarllen Cymraeg, agorodd Islwyn Ffowc y drws i lu o nofelwyr newydd, modern i ddilyn yn ôl ei draed. (A *dilyn* yw'r gair allweddol yma o hyd, ysywaeth; prin fod yr un nofelydd Cymraeg cyfoes wedi cyrraedd yr un safon ag ef, heb son am ei oddiweddyd.) Yn bwysicach na hynny, o bosib, gosododd safon newydd o ran ymroddgarwch a diwydrwydd wrth ei grefft, mewn gwlad o lenorion rhan-amser a chrintach eu cynnyrch, gan gynhyrchu chwech o nofelau mewn dim ond wyth mlynedd.

Yng ngeiriau John Rowlands, "...does dim amheuaeth nad ef yw'r nofelydd mwyaf proffesiynol a welsom yn y cyfnod ar ôl y rhyfel..." Awdur chwyldroadol ar sawl ystyr felly, ac onid rhyfedd nas anrhydeddwyd am hynny mewn ffordd deilwng?

Ond wrth gwrs, y mae wedi bod yn ffasiynol ers blynyddoedd bellach i ddiystyru — os nad dilorni — Islwyn Ffowc (mewn ffordd fach garedig, nawddoglyd ar y cyfan, bid siwr, fel sy'n arferol gyda ni'r Cymry) am iddo fethu â "chyflawni" yr addewid cynnar hwnnw. Asgwrn y gynnen, wrth gwrs, yw ei farn bendant ef ynglŷn â'r angen am ddarparu toreth o nofelau ysgafn, deniadol yn y Gymraeg, a'i farn (mwy amhoblogaidd fyth, a thân ar groen llawer o'n llenorion aruchel, "pur") ei bod hi'n gyfrifoldeb ar awdur proffesiynol i geisio cyflenwi'r angen honno. Barn sydd wedi arwain Islwyn Ffowc i wadu iddo'i hunan foethusrwydd hunanymollyngol y llenor "pur" er mwyn gwneud yr hyn a wêl ef yn ddyletswydd arno.

Y mae rhai wedi bod yn greulon iawn wrtho. "Hunanladdiad, puteindra" yw disgrifiad Bobi Jones o'i ymdrechion, a wedyn, yn sarhaus o nawddoglyd, "Bu, o bosib, yn ysglyfaeth i ymgyrch di-ymennydd o blaid amlhau llyfrau poblogaidd." Wel, does neb yn dadlau nad siom oedd llyfrau fel *Eira Mawr* a *Y Gromlech yn yr Haidd* ar ôl nofelau gafaelgar fel rhai Lleifior, neu ymdrech mor uchelgeisiol â *Ffenestri tua'r Gwyll*. Ond nid am fod y dosbarth cyntaf yn nofelau "poblogaidd", slic, a rhai'r ail ddosbarth yn llenyddiaeth aruchel, astrus; na, y gwahaniaeth trist ac eironig yw fod *Cysgod y Cryman* yn nofel llawer mwy bywiog, gafaelgar, diddorol ac, o ganlyniad, mwy *darllenadwy* na rhywbeth fel *Eira Mawr*. Ysgrifennu dilewyrch gan amlaf yw ysgrifennu i fformiwla; yr unig "fformiwla" sydd ei hangen ar nofelydd mor ddisglair ag Islwyn Ffowc yw ysgrifennu o'i galon am y pethau sydd yn bwysig iddo ac yn annwyl ganddo.

Unig fai Islwyn Ffowc Elis, yn fy nhyb i felly, fu methu â sylweddoli nad oes angen iddo ei aberthu ei hun ar y tanllwyth angladdol y mae wedi ei adeiladu iddo'i hun fel awdur. Gall lwyddo yn ei grefft, a llwyddo yn y nod holl-bwysig hon y mae wedi ei gosod iddo'i hun, sef denu pobl i ddarllen Cymraeg, drwy ddal i ysgrifennu yn ôl ei anian a'i natur, a chynhyrchu nofelau campus fel *Cysgod y Cryman* sydd gyda'r nofelau gorau — ac yn sicr y mwyaf *darllenadwy* — a ysgrifennwyd yn yr iaith Gymraeg. Fel y dywed John Rowlands: "Gadewch i ni beidio a'n twyllo'n hunain am funud: does neb o'r to iau o nofelwyr wedi dod yn agos at berffeithrwydd storiol ei nofelau cyntaf ef." A Bobi Jones yntau: "Yn ei grefftwaith rhyddiaith erbyn hyn y mae Islwyn Ffowc Elis yn gyfan gwbl ar ei ben ei hun ymhlith y llenorion dan drigain oed."

Mae son fod gan Islwyn Ffowc Elis nofel hanesyddol ar y gweill ers rhai blynyddoedd bellach. Prin fod rhaid dweud fod mawr ddisgwyl amdani yng Nghymru, a gobeithio y caiff weld golau ddydd yn fuan iawn. Mae fflam ddisglair wedi ail-gynnau o'r *Marwydos* hefyd (sef y gyfrol o'i straeon byrion a gyhoeddwyd ym 1974) sydd, gobeithio, yn ernes o gyfnod newydd a chynhyrchiol o weithgarwch llenyddol. Yn y cyfamser, onid yw hi'n warth arnom ni Gymry nad yw'r awdur sensitif a galluog hwn wedi ei anrhydeddu'n deilwng am ei gyfraniad mawr i lenyddiaeth Cymru: fel nofelydd a storiwr ac ysgrifwr, fel awdur sgriptiau radio a theledu, fel darlithydd a siaradwr — ac nad anghofier am ei waith gwerthfawr gyda chynllun cyfieithiadau'r Cyngor Llyfrau Cymraeg. Felly, beth amdani, Gyngor y Celfyddydau — beth am wneud 1979 yn flwyddyn Islwyn Ffowc Elis?

S.A.E.

# Y GYNGRES GELTAIDD

**Unwaith eto daeth tro Cymru i groesawu cynulliad blynyddol y Gyngres Geltaidd Cynhelir y Cyngres eleni yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin rhwng Gorffennaf 31ain ac Awst 5ed. Y pwnc a ddewiswyd i'w drafod yw "Lle'r Gwledydd Celtaidd yn y Gymuned Ewropeaidd". Y drefn arferol yw cael sgwrs gan gynrychiolydd o bob gwlad (Llydaw, Cernyw, Cymru, Iwerddon, Ynys Manaw a'r Alban) ac yna trafodaeth gyffredinol a chynigiadau i ddilyn.**

Diddorol fydd gweld ymateb y siaradwyr i'w pwnc. Dair blynedd yn ôl, yng Nghernyw, pwnc y Gyngres oedd "Effaith twristiaeth ar y Gwledydd Celtaidd. Bu'r dadlau mwyaf am benderfyniad swyddogion y mudiad nad oedd gan neb yr hawl i sôn am wleidyddiaeth. Mae hynny'n ddigon teg os mai dyna natur cyfansoddiadol y mudiad, ond pobl od — a dweud y lleiaf — sy'n dewis pwnc megis "Lle'r Gwledydd Celtaidd yn y Gymuned Ewropeaidd" ar gyfer Cyngres Caerfyrddin gan wybod cymaint o faen tramgwydd fu'r ffenomen wleidyddol yn y gorffennol (er mai pynciau felly a fu'n ganolog i bob Cyngres yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf).

Ymhlith aelodau'r Gyngres hyd yn oed, synhwyrir presenoldeb rhyw fwgan sy'n cyffroi agweddau digon amheus tuag at yr ieithoedd Celtaidd. Nid ymgorfforiad mo'r Gyngres o arweiniad y Celtiaid eu hunain ym maes hybu'r ieithoedd brodorol. Yn ôl cyfaill a fu yn Stirling y llynedd, yng Nghyngres yr Alban, un siaradwr gwâdd yr unig — y Cymro Siôn Aled — a ddefnyddiodd iaith Geltaidd yn ei anerchiad; traddododd ei araith yn Gymraeg gan gyfieithu i'r Saesneg fesul brawddeg. Cafodd ei feirniadu'n hallt am hynny o beth. Sicrhaodd yr Albanwyr hefyd mai Saesneg oedd unig gyfrwng papurach y Gyngres, er iddynt ychwanegu'n wyliadwrus ar un: "Apology for programme being in English only. This was due to prohibitive cost." Rhyddhad oedd darllen yn ddiweddar yn y CYMRO am fwriad Cangen Cymru i logi cyfarpar cyfieithu ar y pryd ar gyfer Caerfyrddin.

Llety yw'r trydydd bwbach sy'n amharu ar y mudiad. Cofia llawer a aeth i Naoned fod pawb yn aros mewn man canolog gyda'i gilydd ac yn talu pris nid afresymol am y fraint. Byrhoedlog ysywaeth yw pob braint; flwyddyn yn ddiweddarach cai'r ifanc wythnos o fwyd a llety am £10 mewn ysgol a neilltuwyd ar eu cyfer, a'r aelodau hŷn yn talu £10 y noson am holl gysuron tywysogaidd gwesty St. Austell.

Ni wn a gyrhaeddodd unrhyw fod 'ifanc' y Gyngres, ddeuddeg mis yn ddiweddarach, yn Ynys Manaw; nid oedd ysgol y tro hwn — gwesty'n unig. Nid oedd amseriad y Gyngres yn ystod y tymor coleg/ysgol yn gymorth chwaith. Erbyn y llynedd yn Stirling, yr oedd pawb unwaith eto yn ôl gyda'i gilydd — am bris; i'r rhai hynny na ddeisyfai'r pris neu fraint y gwmniaeth, rhaid oedd iddynt fanteisio ar eu dyfeisgarwch eu hunain cyn gallu gorffwys eu pennau y nos.

Beth felly am Gaerfyrddin? Llety — am grocbris — yn ôl Y CYMRO a'r FANER, ond yn waeth na hynny, llety i nifer cyfyngedig. Ychydig o'r brodorion lleol a ymddangosodd yng Nghernyw, Ynys Manaw a Stirling. Onid denu ddylai fod yn nod i Gangen Cymru yn hytrach na gwrthod; ehangu yn hytrach na dethol, a sicrhau fod yna faes pebyll/carafannau (gyda'i gilydd!) nepell o Goleg y Drindod?

Ar ôl amlinellu hynny o wendidau, brysiaf yn y paragraff olaf i bwysleisio mai denu Cymry i'r Gyngres oedd fy amcan, nid cyflwyno esgusodion dros gadw draw. Dyma gyfle bendigedig i ddysgu am broblemau ein cyd-Geltiaid drwy drafod a gwrando, drwy gyfrannu a derbyn, drwy weithio yn ogystal a thrwy fwynhau. Gwerthfawr a phleserus oedd fy ymweliadau i a Naoned a St. Austell beth bynnag.

JOHN C. HUGHES

## RHAGHYSBYSIAD

Llongyfarchiadau ymlaen llaw i Siân Morgan (gynt o Rhiwbeina), sydd bellach yn adnabyddus fel Siân Meredydd, yr actores, a fydd yn priodi Rolant Jones, aelod arall o Gwmni Theatr Cymru yn ystod yr haf.

# Cymdeithas Amnest

**Beth ydy'r cysylltiad rhwng Lopez Pablo — ffermwr o El Salvador, Tran Van Tuyen — cyfreithiwr a brodor o weriniaeth Sosialaidd Vietnam a Taisir Al-Aruri — athro mathamateg yn Israel? 'Carcharorion Cydwybod' ydy'r tri. Ond, mae un cysylltiad arall rhwng y tri — mae eu hachos wedi cael ei dderbyn gan "Amnest Rhyngwladol".**

Sefydlwyd "Amnest Rhyngwladol" yn Llundain yn 1961 er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y dynion a'r merched oedd mewn carchar oherwydd eu credoau (crefyddol, gwleidyddol ac ieithyddol). Rhaid cofio, fodd bynnag, fod yn rhaid i garcharor fodloni "Amnest Rhyngwladol" mewn nifer o ffyrdd cyn cael ei dderbyn dan adain y mudiad. Er enghraifft, ni ddylai'r carcharor fod wedi defnyddio trais na siarad o blaid trais o gwbl.

Ers iddo ddechrau mae dros 170,000 o bobl mewn 37 o wledydd wedi ymaelodi ag "Amnest Rhyngwladol". Mae 160 adran ym Mhrydain ac yn naturiol mudiad anenwadol yw. Mae'n gweithredu trwy anfon llythyrau at y wasg, at y llywodraeth ac at ffrindiau a theuluoedd carcharorion. Ambell waith ceir protestiadau o blaid rhyddid y carcharor.

Rhaid i bob grŵp neu adran fabwysiadu tri carcharor cydwybod yr un pryd — un o wlad gyda llywodraeth asgell dde, un gyda llywodraeth asgell chwith a'r llall o'r trydydd byd.

Mae grŵp lleol newydd ddechrau yma yng Nghaerdydd ac fe fydd croeso cynnes i unrywun a hoffai roi cymorth fel cefnogwr neu noddwr. Cynhelir cyfarfodydd "Amnest Rhyngwladol" yng Nghaerdydd yn 'The Friends House', Charles Street, ar y trydydd nos Lun yn y mis, 7.30 o'r gloch. Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno fod sefydlu adran yn ein prifddinas yn gam pwysig.

ALAN JOBBINS


**YN EISIAU AR FRYS**

ATHRAWES I YSGOL FEITHRIN LLANDAF

*DROS DRO NEU BARHAOL*

FFÔNIER 36852



Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Tŷ John Roberts, 53 Richmond Road, Caerdydd.

**SWYDD CLERC/TEIPYDD**

Gwahoddir ceisiadau am swydd Clerc/Teipydd llawn amser i'r swyddfa uchod. Rhaid wrth wybodaeth drwyadl o'r Gymraeg, a chymwysterau llawfer (Saesneg) a theipio clywedol.

Cyflog dechreuol £2,244 y flwyddyn.

Anfoner at yr Ysgrifennydd am fanylion pellach.



UNDEB RHIENI YSGOLION CYMRAEG

CYNHELIR Y

**GYNHADLEDD FLYNYDDOL**

YN NEUADD PANTYCELYN, COLEG ABERYSTWYTH, 10.00 – 5.00

SADWRN I GORFFENNAF 18

I ANNERCH AM 2.30:

MR TECWYN ELLIS A MR W.J. PHILLIPS AR

*POLISI IAITH PWYLLGORAU ADDYSG GWYNEDD A DYFED*

# O'R STEDDFOD (parhâd)

### MERCHED CYNCOED

Bu merched Cyncoed yn brysur iawn yn casglu defnyddiau ar gyfer y siop ail law a drefnwyd ganddyn nhw o ddydd Llun Mai 8fed tan y 13eg. Fe gafwyd, yn ystod mis Ebrill, ddawns a disco gan Richard Rees a grwp Seindorf (wedi ei threfnu gan fyfyrwyr Caerdydd), sioe ffasiynau gan gymuned Rhiwbeina yn cael ei chyflwyno gan Mrs Rachel Thomas, a chyngerdd gan Gôr Godre'r Garth yn Neuadd Reardon Smith.

### ARIAN LLYWODRAETH

Fe siomwyd pwyllgorwyr yr Eisteddfod o weld nad oedd dim cyfran yn dod i Gaerdydd o grant y Llywodraeth i'r Eisteddfod Genedlaethol. Fe'n siomwyd, ond nid ydym yn digalonni mewn unrhyw fodd, meddai Mr Emyr Currie-Jones, wrth ddiolch i'r awdurdodau lleol am eu cyfraniadau hael, sy'n cynnwys £40,000 oddi wrth Gyngor De Morgannwg a £60,000 oddi wrth Gyngor Caerdydd. Derbyniodd Mr Currie-Jones siec y Cyngor Sir o law y Cadeirydd, y Cynghorydd Hugh Ferguson Jones.

### FFILM

Mae rhai o'r di-Gymraeg yng Nghaerdydd yn dangos diddordeb mawr yn yr ŵyl. Hysbysebwyd dro'n ôl fod y ffilm *A Celtic Celebration* ar gael yn Swyddfa'r Eisteddfod i'w dangos i gymdeithasau lleol. Erbyn hyn mae ceisiadau wedi llifo i mewn ac mae'r ffilm allan yn barhaus a'r cymdeithasau yn awyddus iawn am ragor o wybodaeth am yr Eisteddfod.

### UCHELBWYNT

Mae'n debyg mai un o uchelbwyntiau'r Wyl fydd y Cyngerdd Operatig yn y Pafilliwn ar nos Sul, 6ed o Awst, gyda Syr Geraint Evans ac eraill o sêr y byd operatig, gan gynnwys Kenneth Bowen ac Anne Edwards a Maureen Guy. Bydd Syr Geraint yn canu unawdau Falstaff ym mysg pethau eraill. Mae'r tocynnau yn awr ar werth yn Swyddfa'r Eisteddfod. Pris £4, £3 a £2, am wledd anghyffredin iawn.

### PLATIAU

Mae'r platiau o grochendy Boncath wedi dechrau cyrraedd, a'r rhai sydd wedi archebu yn cael llythyr pan ddaw eu plat arbennig nhw i law. Os nad ydych wedi archebu — mae'n bryd gwneud.



*Mr Emyr Currie-Jones, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, gyda'r siec am £40,000 a gyflwynwyd iddo gan y Cynghorydd Hugh Ferguson Jones, Cadeirydd Cyngor De Morgannwg.*

# O'R GANOLFAN

Yn sicr, y peth mwyaf cyffrous sydd yn digwydd yn y Ganolfan y dyddiau yma yw'r paratoi tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol. Fel y gwyddoch, mae'n siwr, mae'r Ganolfan wedi sicrhau y cytundeb maes parcio, sydd yn golygu llawer o waith er mwyn gwneud yn sicr fod y fenter yn llwyddiannus.

Cyflogir tua deugain o bobol, o ddosbarth pump yn yr ysgol i fyny, (myfyrwyr ac yn y blaen) i weithio'r ddwy shifft angenrheidiol. Cymraeg fydd iaith pawb a gyflogir, ac felly, fydd dim rhaid i neb siarad Saesneg wrth ymweld â'r Eisteddfod eleni.

Os oes diddordeb gennych mewn gweithio ar y cynllun yma, cysylltwch yn syth â Rhys Tudur, Y Mans, Gwaelod y Garth. Ffôn: 810820.

Nid y maes parcio fydd unig gysylltiad y Ganolfan a'r Eisteddfod, gan fod rhywbeth wedi'i drefnu bron bob nos. Yn dechrau ar y nos Fawrth, cyflwynir 'PRIFROC PRIFDDINAS', yn y Top Rank, gyda grwpiau mwyaf adnabyddus Cymru. Dawns fydd eto ar y nos Fercher, ar raddfa ychydig yn llai, ond yr un mor gyffrous. O nos Iau i nos Sadwrn, yn yr Arena, Theatr y Sherman, bydd Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd yn cyflwyno rifiw 'Neb yn Deilwng'. Efallai i chi gofio y rifiw a berfformiwyd yn ystod yr ŵyl gyhoeddi, wel dyma hi eto, ar ei newydd wedd.

### CYMDEITHAS CEFNOGWYR Y GANOLFAN

Er mwyn ceisio cael ffynhonnell rheolaidd o arian, sefydlwyd Cymdeithas Cefnogwyr y Ganolfan, a gobeithir cael nifer o bobol i gyfrannu £1 y mis. Bydd hanner yr arian wedyn yn mynd yn ôl mewn gwobrau bob mis. Mawr hyderwn y caiff y syniad yma gefnogaeth gan lu o bobol sydd am weld y Ganolfan ar dir sicrach o'r ochr ariannol.

### 10-10

Dim scor pêl droed yw 10-10, ond y gêm gyffrous newydd gan Mistar Urdd sy'n ysgubo trwy Gymru gyfan. Y syniad yw cadw'r cylch i fynd gyda llinyn, am yr amser hiraf, ac hefyd yn y ffordd mwyaf diddorol. Mae wyth cystadleuaeth i gyd, sydd yn cynnwys bob oedran, hyd yn oed i fyny i 25 oed. Bydd y rowndiau terfynol yn cael eu cynnal ar faes yr Eisteddfod yn Llanelwedd, ond cyn hynny, rhaid cael cystadleuaeth sirol, ac fe gynhelir pencampwriaeth De Morgannwg yma yn y Ganolfan ar Fai 16, am 6.30 o'r gloch, gyda disgo yn dilyn. Croeso i bawb!

### BWRDD FFILMIAU

Eleni eto cafwyd ymweliad gan y Bwrdd Ffilmiau Cymraeg, gyda dwy sioe, un i'r plant, yn cynnwys amryw o ffilmiau bach am wahanol rannau o'r byd. Cafwyd cefnogaeth dda i'r sioe gan ysgolion ac adrannau. Stori wahanol iawn oedd i'r sioe oedolion, gan na ddaeth neb i'w gweld.

### MISTAR URDD

Cofiwch fod nwyddau Mistar Urdd ar werth yn siop y Ganolfan, ac os ydych yn trefnu ffair neu arwerthiant, yna mae'n bosib cael stondin Mistar Urdd yno hefyd. Holwch am fanylion!

Hefyd ar werth yn y Ganolfan, mae rhaglen swyddogol Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd, pris 35c.

Ar Nos Sul, Ebrill y 9fed, yng Nghapel Heol y Crwys cafwyd y 'Gystadleuaeth Fawr', sef dewis blaenoriaid. Daeth yr anrhydedd i ran — Lloyd Evans, Eiry Humphries ac Eirion Lewis.

Llongyfarchiadau i Elin a Rhys Tudur ar enedigaeth eu mab, Siôn, nos Wener Mai 5ed.

**YN EISIAU**

**YSGRIFENYDDES**

I weithio 15 awr yr wythnos, oriau i'w trefnu.

Cysylltwch â'r Warden
Canolfan yr Urdd
Heol Conwy
Ffôn: 36201

# Twf Dinesig Caerdydd

Canlyniad twf porthladd Caerdydd yn y ganrif ddiwethaf oedd y cynnydd cyflym ym mhoblogaeth y dref — o 18,000 ym 1851 i dros 250,000 ym 1961. Wedi Deddf Corfforaethau Trefol 1835 rhoddwyd i'r dref ei Chyngor a etholwyd gan y trethdalwyr ac apwyntiwyd Clerc y Dref cyflogedig a pharhaol. Y Cyngor hwnnw bellach oedd i fod yn gyfrifol am drefnu pob agwedd ar faterion lleol fel yr heddlu, adeiladu tai, addysg a gweinyddiaeth drefol yn gyffredinol.

Hyd at 1850 nid oedd nemor dim carthffosiaeth yng Nghaerdydd ond wedi mesur Iechyd Cyhoeddus 1848 y gorfforaeth oedd i ofalu am gasglu sbwriel a chadw'r dref yn daclus. Glanhawyd y dref a gosodwyd treth o swllt y bunt ar y deiliaid. I ateb gofynion y boblogaeth newydd aethpwyd ati i wella'r cyflenwad dŵr a ddaethai'n wreiddiol o afon Tâf a ffynhonnau'r dref. Prynwyd tir ar Fannau Brycheiniog i'r pwrpas ac agorwyd y gronfa ddŵr gynta ym 1892, a gorffenwyd y ddwy arall rhwng 1897 a 1909.

Yn ôl amcangyfrif a wnaed ym 1911 dim ond tua hanner poblogaeth Caerdydd oedd yn frodorion o'r dref. Erbyn hynny yr oedd ardal y dociau — 'Tiger Bay' fel y'i gelwid — yn gymysgedd o bobl o wahanol genhedloedd ac ieithoedd, ac yn y cyfnod hwnnw ardaloedd Cathays a'r Rhath a ddenai'r cyfoethogion, gwŷr busnes a diwydianwyr yn bennaf.

Sefydlwyd achosion crefyddol yn eglwysi a chapeli Saesneg a Cymraeg. Yn ystod degawd 1820-30 adeiladwyd tri capel Cymraeg — y Tabernacl (Bedyddwyr), Seion (Methodist), ac Ebeneser (Annibynwyr). Ym 1821 y codwyd y Tabernacl cynta ac fe'i ail-adeiladwyd ym 1865. Ar safle hen gapel Seion (1827) y sefydlwyd llyfrgell bresennol y ddinas ym 1882 ac ynddi hi y cedwir casgliadau amhrisiadwy o lawysgrifau Cymraeg yn cynnwys y copi cynharaf o Lyfr Aneirin sy'n dyddio o tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg. Ym 1863 y codwyd Eglwys Sant Andreas (sydd erbyn hyn yn Eglwys Gymraeg) a rhwng 1890 a 1899 adeiladwyd yr hen eglwys Anglicanaidd Gymraeg yng Ngerddi Howard. Bellach y mae nifer o addoldai eraill yn y ddinas sy'n tystio i'r arweiniad brwd a gafwyd ymysg Cymry Caerdydd y ganrif ddiwethaf ym myd crefyddol yn gyffredinol.

Ymddangosodd theatrau'n ogystal ac agorwyd y Theatr Frenhinol (1878) yn Heol Wood, y Philarmonic yn Heol y Santes Fair cyn 1890, a'r Theatr Newydd ym 1906. Wedi 1889 adeiladwyd ysgolion canolraddol ac ym 1895 agorwyd ysgol Uwchradd y Merched ac fe' i dilynwyd gan Ysgol Uwchradd y bechgyn. Yr ysgol eilradd gyntaf a adeiladwyd yng Nghaerdydd oedd Ysgol Howell i ferched yn Llandaf yn 1859 ac fe'i gwaddolwyd hi gydag arian a benwyd i bwrpas elusen yn ewyllys Thomas Howell, aelod o gwmni'r Dilladwyr, mor gynnar â 1540.


Ym 1883 codwyd Coleg y Brifysgol ar dir yr hen ysbyty yn Heol Casnewydd, ac wedi 1900 fe'i datblygwyd ar raddfa fwy ym Mharc Cathays. Hefyd adeiladwyd nifer o ysbytai, megis yr Ysbyty Brenhinol (1836) yn Heol Casnewydd (ar dir yr hen Spital-ysbyty'r gwahanglwyfion) ac fe'i symudwyd ym 1883 i'w safle bresennol gyferbyn a gwaelod Heol Plwcca. Ar gyfer morwyr yn bennaf y sefydlwyd Ysbyty'r Hamadryad ger y dociau ym 1886 ac fe'i enwyd ar ôl y llong honno a ddefnyddiwyd yn noc Gorllewin Bute. At hyn oll ymddangosodd nifer o gymdeithasau llenyddol, gwyddonol ac adloniadol tebyg i gymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd (1867). Ym 1869, gyda llaw, dechreuwyd gwerthu'r *Western Mail* fel papur dyddiol Ceidwadol ar strydoedd y dref.

Cymaint fu twf yn urddas y dref fel y bu i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â hi ym 1883 ac fe'i dilynwyd hi gan y British Association ym 1891. Dylanwad cynyddol Caerdydd ym myd masnachu a fu'n bennaf gyfrifol am ei dyrchafu'n ddinas gan y brenin Edward VII ym 1905 a'r Henadur Robert Hughes yn Arglwydd Faer cyntaf arni. Cyd-ddigwyddodd hynny â datblygiadau pensaernïol pwysig iawn yn y ganolfan ddinesig newydd ym Mharc Cathays. Agorwyd drysau Neuadd y Ddinas a'r llysoedd cyfraith ym 1905 ac wedi hynny Cofrestrfa'r Brifysgol ym 1909. Rhodd Iarll Plymouth oedd y tir eang a roes gartref i Amgueddfa Werin Cymru yn San Ffagan yn 1948. Flwyddyn yn gynharach rhoddodd Arglwydd Bute y castell a pharc Bute i'r ddinas, tystiolaeth bellach o wasanaeth difesur y teulu hwn i ffyniant Caerdydd dros gyfnod o ddwy ganrif.

Effeithiodd y ddau ryfel byd yn ddifrifol ar fywyd masnachol y ddinas ynghŷd â'r dirwasgiad enbyd yn ugeiniau'r ganrif bresennol. Serch hynny, parhaodd i fod yn brif ganolfan ddinesig Cymru ac yn 1955 fe'i hanrhydeddwyd trwy ei ddyrchafu'n brifddinas. Rhoes hynny arwyddocad cenedlaethol newydd i'r hen dref ar lannau Taf: ei chyfrifoldeb hi bellach oedd crynhoi ynddi ei hun ac yn ei thrigolion yr ymwybyddiaeth o Gymreictod.

Cawn edrych yn fanylach y tro nesaf ar fywyd Cymraeg y dref a'r ddinas newydd yn ystod y ganrif ddiwethaf.

J. GWYNFOR JONES

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU


CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd
PENYGROES, Ffôn
CAERNARFON
GWYNEDD

*Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru.*

**THEATR YR YMYLON YNG NGHAEREDIN**

**Digwyddiad o bwys ym myd y theatr yng Nghymru yw'r ffaith y bydd cwmni Theatr yr Ymylon, sydd yn gweithio o Gaerdydd, yn ymweld â Gŵyl Caeredin eleni. Bydd y cwmni'n cyflwyno dwy ddrama yno, sef *Small Change* (gan Peter Gill, brodor o Gaerdydd) a *Shifts* (gan John L. Hughes, o Bontypridd).**

Bydd cyfle i'r rheini ohonoch a gollodd y cyfle i weld cynhyrchiad gwych y cwmni o ddrama Peter Gill y tro cyntaf y'i cyflwynwyd yma yng Nghaerdydd, i weld *Small Change* pan fydd Theatr yr Ymylon yn mynd â hi ar daith o gwmpas Cymru y mis nesaf. Yn sicr, dyma'r ddrama fwyaf gwefreiddiol a ysgrifennwyd am Gaerdydd erioed.

Y mae'r awdur yn byw yn Llundain bellach, yn rhedeg Canolfan Gelfyddydau Riverside yn Hammersmith, ar ôl gweithio am gyfnod gyda'r Royal Court. Dywed y carai weld llawer mwy o'i ddramau yn cael eu llwyfannu yng Nghymru.

# Gŵyl Killarney

Y grwp Brân, gyda Delwyn Sion yn unawdydd fydd yn cynrychioli Cymru yn yr Wyl eleni. Y gan yw "Angel, Ble 'rwyt ti" a gyfansoddwyd gan John Gwyn. Os byddant yn llwyddiannus yn Iwerddon, £500 fydd y wobr.

BBC Radio Cymru fu'n trefnu'r gystadleuaeth a'r beirniaid oedd:

Arnold Lewis, Pennaeth Adran Gerdd.

Hywel Gwynfryn, Helo Bobol.

Emyr Wyn, Bilidowcar a Mynediad am Ddim.

Hefin Wyn, Y Cymro.

Ifor ap Gwilym, Ysgrifennydd yr Wyl Ban-Geltaidd a Threfnydd Cynorthwyol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Bydd y Grŵp "Plethyn" a Linda Griffiths yn cynrychioli Cymru yn y Cystadlaethau Canu Gwerin Cwmni o Goleg Cerdd a Drama Cymru yn y Gystadleuaeth Ddrama, a Chôr Cantre'r Gwaelod yn y Gystadleuaeth Gorawl.

Unrhyw wybodaeth bellach oddi wrth Ifor ap Gwilym, Ffôn: Caerdydd 398316 neu 397300.

# Gwaelod y Garth



**Dydd trist oedd Gwyl Ddewi eleni yng Ngwaelod y Garth pan fu farw ein diweddar frawd John Charles Davies. Roedd y gwr hynaws hwn yn un o gymeriadau llawn-bywyd y gymdeithas a'i ddiddordebau'n eang. Dylanwadai'i frwdfrydedd a'i bersonoliaeth ar ba bynnag gwmni y digwyddai fod ynddi.**

Fe ddywedodd un person amdano "Os oedd un person yn poeni am Bethlehem yna John Charles oedd hwnnw."

Roedd ganddo ddiddordeb ysol yn y gwasanaethau a'r cyrddau. Roedd yn gallu pwyso a mesur pregeth ac yn barod i gymryd ei ran fel yr oedd y galw. Ef oedd yr un oedd yn gyfrifol am holl ochr gerddorol yr Eglwys. Chwaraeai'r organ, codai'r canu a hyfforddai'r côr ar gyfer y gymanfa. Does dim amheuaeth o gwbl ei fod yn Gristion mawr yn caru'r Achos ac yn gweithio'n ddiflino yn yr Eglwys.

Roedd John Charles yn ddyn diwylliedig hefyd, wedi darllen yn eang ac wedi ymddiddori yn y 'pethe'. Yn ystod yr wythnos cyn Eisteddfod Cricieth fe benderfynodd ddod gyda mi yn blygeiniol y Llun i'r Brifwyl. Er fy mod i yn bryderus ynglŷn â lle iddo aros doedd e ddim yn troi blewyn. 'Fe fyddai'n siwr o gael rhywle i aros,' oedd ei eiriau. Cyraeddasom Faes yr Eisteddfod erbyn hanner awr wedi naw ac aeth yntau ar unwaith i holi am wely. Erbyn cannol dydd roedd wedi cael lle am yr wythnos. Na nid allan mewn rhyw fan diarffordd ond ar 'y Ffrynt' yng nghanol y dref gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llety a Chroeso. Dyna sut un oedd e, doedd dim yn mynd i'w rwystro ac yr oedd calonau pobl yn cynhesu ato.

Roedd yn cymryd diddordeb mawr mewn pobl hefyd. Ar ôl treulio blynyddoedd maith fel trafeiliwr o gwmpas y De roedd ganddo gysylltiadau ym mhob tref a phentref bron. Byddai'n dal ar bob cyfle i alw i weld hwn a'r llall. Os clywai fod rhywun yn mynd i'r fan ar fan yna doedd dim ganddo neidio i'r car a mynd gydag ef er mwyn cael galw i weld hen gyfaill. Roedd yn adnabod pawb yn y pentref hefyd. Ef oedd y cyntaf i glywed os oedd unrhywun yn sal neu mewn unrhyw drafferth. Pan gwynodd un iddo nad oedd yn adnabod pobl y pentre ar ôl cyfnod o amser o fyw yma ei gyngor ef oedd 'Cerdda o un pen i'r pentre i'r llall a phwy bynnag weli di, siarad gyda hwy a hola hwy ynglŷn â'u cysylltiadau â'r pentref. Ymhen dim fe ddoi i adnabod pawb! 'Dyma oedd ei ffordd ef a dyna sut roedd yn adnabod pawb.

Roedd John Charles yn ddyn cyfan, yn Gristion, yn Gymro ac yn gymeriad. Mae colli dyn o'i fath wedi tlodi ein cymdeithas ond gall ein cof ohono ein hysbrydoli ni i weithio yn galetach dros y pethau sy'n cyfrif. Mae'n cydymdeimlad ni i gyd yn fawr gyda Eunice ei wraig a'r holl deulu yn y brofedigaeth yma.

RHYS TUDUR



## HYSBYSEBU

**Am fanylion ynglŷn â'n telerau hysbysebu, cysyllter â:**

**CYHOEDDWYR CLEGLEN CYF.**
**55 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf,**
**Caerdydd CF1 8LW.**
**Ffôn: 0222 - 396262**

(Danfoner pob deunydd hysbysebu i'r cyfeiriad uchod, os gwelwch yn dda.)


# NEWYDDION CWM RHYMNI



## NOSON GŴYL DDEWI

Bu Cylch Barddas Caerdydd yn brysur yn llunio englynion cyfarch i westeion cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas Gymraeg Caerffili, sef Meredydd Ifans a Phyllis Kinney. Dyma gynnig Alun Ogwen —

*Ar bop mae ambell bopiwr —*
*Syr Geraint,*
*Oes ragorach gantor?*
*Ar werin gân ceir un gŵr,*
*Merêd yw'r Ymerawdwr.*

Mae englyn Arfon Williams yn llwyddo i grybwyll Phyllis hefyd! —

*Merêd yn llawn mawrhydi —*
*fu'n tywys*
*Phyllis i Gaerffili.*
*Yn awr wedi'n cinio ni*
*Daw ei gân a'n digoni.*

Nid oedd englyn Moi Parri, ysywaeth, wrth fodd calonnau aelodau'r Gymdeithas —

*Ar amnaid i Gwm Rhymni —*
*y daethoch*
*I Gymdeithas Dewi.*
*I'r fro hon cael gŵr o fri*
*I'r ffyliaid o Gaerffili!*

Ychydig o ddyddiau wedyn daeth y 'newyddion braf' fod Moi — sy'n byw ar hyn o bryd yn Senghennydd — yn gadael yr ardal am fynyddoedd Meirion! Serch hynny, fe fydd rhai ohonom — wel, un neu ddau ohonom, efallai — yn teimlo'i golled yn fawr iawn ac, ar yr un pryd, yn dymuno'n dda iddo a'r teulu ym mhentref Llangwm, ger y Bala. Yno fe fydd Moi yn brifathro ar yr ysgol leol — ac yn cael pen rhyddid i englyna ymhell o glyw pobl wâr Caerffili!

(Tybed y gaiff Cen Williams ei ddewis fel olynydd i Moi ar y cae pêl-droed?)

## CRONFA'R STEDDFOD

Uchafbwynt digamsyniol cyngerdd Caerffili at Gronfa Cwm Rhymni oedd deuawd wefreiddiol 'Hywel a Blodwen' a berfformiwyd — heb fawr o ymarfer, yn ôl yr hanes — gan Siân Parry, athrawes yn Ysgol Ifor Bach, Senghennydd, a Gwilym Owen, rheolwr Banc y Midland yng Nghaerffili.

Llongyfarchwn ardal Tredegar Newydd yn y Cwm ar gyrraedd a phasio ei nod ariannol. Mae nifer o'r pentrefi eraill heb fod ymhell o'u targed ac, ymysg y digwyddiadau eraill trefnwyd -

Ebrill 21 — Noson 'Peint a Chân' yn yr Hen Felin, Bargoed, dan nawdd pwyllgor Penpedairheol.

Mai 1 — Noson o hwyl yn y Gloch Las, Caerffili, am 8p.m. i dynnu Raffl Fawr y Cwm — gyda John Ifans yn tynnu'r tocynnau buddugol.

— Cyngerdd plant ysgol a thaith gerdded yng Nghwm yr Aber.

— Nosweithiau coffi ym Margoed.

— Taith gerdded i'r mamau! yng Nghaerffili.

Apwyntiwyd Alun Guy yn bennaeth adran Gerddoriaeth Ysgol Glantaf. Mae Alun yn frodor o Gaerdydd ac erbyn hyn yn enwog trwy Gymru gyfan fel arweinydd Cymanfaoedd. Yma yng Nghaerdydd bu'n arwain Côr Aelwyd Caerdydd ac yn awr mae wrthi'n ddyfal yn paratoi Côr yr Eisteddfod Genedlaethol. Diau y bydd Côr Plant Ysgol Glantaf yn ymddangos ar lwyfan cyn hir! Pob llwyddiant i Alun a llongyfarchiadau gwresog.

* * *

Apwyntiwyd Cymraes o ardal Rhydaman yn ddirprwy-brifathrawes Ysgol Gyfun Martin Sant, Caerffili.


Llongyfarchiadau calonnog iddi a phob llwyddiant yn ei swydd newydd.


**DEWCH AM HWYL I LANELWEDD**

Cyfle i fwynhau
- SIANGDIFANG
- HEI, DYMA'R URDD
- CHWARAEON
- CREFFTAU
- ARDDANGOSFEYDD
- THEATR
- FFILMIAU
- STIWDIO
- CYNGERDD GWERIN
- LLOND BOLA

hyn i gyd ac
**EISTEDDFOD, A MWY**

**30 Mai - 3 Mehefin 1978**




RIFIW: DR. HYWEL FFIAIDD, CHAPTER — CANOLFAN Y CELFYDDYDAU

"Roedd yr actio yn wych am awr a hanner...... ond ble roedd y ffieidd-dra?" dyna ymateb nifer o bobl i'r noson. Gorddisgrifiwyd y ffieiddiwch yn yr hysbysebion, ac fel rhagflas o'r ffieidd-dra yn y theatr, roedd bagiau piwc wedi eu glynu i'r seddau. Dim ond un peth gwirioneddol ffiaidd a ddigwyddodd, ond mae hwnnw'n rhy ffiaidd i'w grybwyll yma!

Cafwyd y cefndir arferol o gitâr, bâs a drymiau i gyfeilio a chreu awyr-gylch. Disgleirient yn gerddorol ac o safbwynt anghenrheidiol cefndir. Cyflwynwyd y rifiw ar ffurf sioe yn y flwyddyn 2058 yn darlunio bywyd Hywel Ffiaidd — y Cymro olaf. Esboniwyd sut yr oedd cymeriad truenus a phathetig Hywel Ffiaidd yn cael ei dynnu'n deilchion gan bwysedd y 'pethau' a'r gymdeithas Gymreig, ac yn y caneuon arllwyswyd bwrlwm doreithog o atgasedd chwerw a miniog.

Portreadwyd y cymeriad yn feistrolgar gan Dyfed Thomas, gyda chymorth gwerthfawr Jane Manders a Pete Edwards. Cynhyrchwyd gan Mici Plwm a Pete Edwards, ac os bydd eu cynhyrchiad nesaf cystal bydd yn werth aros amdano.

BALTIMORE JAMES

# Y Dyn Dwad

Mae'n siwr y bydd llawer iawn o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn falch o glywed bod yr hen gyfaill (a chyn-golofnydd) Goronwy Jones ar fin mentro i faes cyhoeddi llyfrau. Bydd modd i chi brynu eich copi eich hun o *Dyddiadur Dyn Dwad* (y fersiwn "no expletives deleted" gyflawn!) yn Eisteddfod Caerdydd.

Cyhoeddir y gyfrol gan Gyhoeddiadau Mei, Y Groeslon.

Ni wyddys ai gwir ai peidio y si gyson fod y gyfrol hon yn debyg o sicrhau gwahoddiad i'r awdur i ymuno â'r cylch dethol hwnnw o awduron, Yr Academi Gymreig, ond cawsom ar ddeall o ffynhonnell sicr iawn y bydd y Ì rawd yn cael ei dderbyn i'r Orsedd ym Mhrifwyl Caerdydd o dan yr enw Goronwy Garpedfawr.

# Cynulleidfa Dda

**Mae digon o gwyno wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan y rheiny sy'n pryderu am ddyfodol y theatr Gymraeg, am ddifaterwch cynulleidfaoedd Caerdydd. Un o ganlyniadau mwyaf adeiladol y cwyno oedd sefydlu Cymdeithas Cyfeillion y Theatr Gymraeg i geisio denu cynulleidfaoedd yn ôl i berfformiadau Cymraeg y brifddinas a hwyrach fod rhywfaint o glod yn ddyledus i'r gymdeithas honno am yr hanner wythnos llwyddiannus dros ben o berfformiadau Cymraeg a gafwyd yn ystod mis Ebrill.**

Drwy'r diffyg cyd-gysylltiad arferol, cafwyd tri chynhyrchiad Cymraeg gwahanol yng Nghaerdydd o fewn pedwar diwrnod: Rifiw Cwmni Theatr Cymru *Hanner Munud* yn y Sherman (Iau, Gwener, Sadwrn 13-15 Ebrill); Dr. Hywel Ffiaidd a'i Gleifion yn Chapter (nos Iau, Ebrill 13eg); drama Cwmni'r Eisteddfod *Yr Wylnos* yn Theatr Bute (nos Sadwrn a nos Sul, Ebrill 15 a'r 16eg). Trychineb, meddech chi, a chynulleidfa fechan wedi ei rhwygo'n dair. Dim o gwbl; y wyrth oedd fod *pob* perfformiad yn llawn *bob* nos, a phawb wedi mwynhau'r tri digwyddiad i'r eithaf.

Pob clod felly i'r Gymdeithas am ei hymdrechion, ac am drefnu'r parti ar ôl y perfformiad yn yr Arena nos Wener. Ond oni ellir priodoli'r llwyddiant yma i raddau helaeth i ffactor hollbwysig arall — sef fod pobl *am* ddod i weld y cynrchiadau hyn, yn hytrach na theimlo ei bod hi'n ddyletswydd arnyn nhw i gefnogi pethau Cymraeg am eu bod yn Gymraeg? Does dim pwynt bytheirio ynglŷn â *dyletswydd* cynulleidfaoedd Caerdydd (a Chymru gyfan) i gefnogi theatr Gymraeg beth bynnag a osodir gerbron (boed epig grefyddol ddiflas fel *Drws Priodas* neu bantomeim sydd bellach wedi colli'r afiaith a'r gwreiddioldeb a'i gwnai'n brofiad mor gyffrous ar un adeg, ac sy'n ymdebygu fwyfwy i ddynwarediad eilradd o'r pantomeim Saesneg traddodiadol). Yr unig ffordd i ddenu cynulleidfaoedd Cymraeg yn ôl i'r theatr yw drwy ddarparu cynnyrch difyr, diddorol a chaboledig y bydd y bobol eu hunain yn teimlo fod arnynt *eisiau* ei weld.

# Hanner Munud!

Hanner munud yn unig a gymrodd hi i'r gynulleidfa niferus yn yr Arena (Theatr.Sherman) i wybod fod perfformiad gwerthchweil ar droed. O'r cychwyn cynta roedd rifiw Cwmni Theatr Cymru — *Hanner Munud* — yn gafael, a chan mai pur anaml y digwydd hyn gyda pherfformiad Cymraeg roedd gwerthfawrogiad y gynulleidfa'n amlwg. Am tua tair awr cadwyd pawb i chwerthin yn ddi-baid — heb neb yn edrych yn anghysurus i gyfeiriad y cloc!

Adloniant, hynny yw — mwynhâd pur, oedd *Hanner Munud* a'r elfen fwya trawiadol oedd ei newydddeb. Lleolwyd y digwyddiadau i gyd ar orsaf nid anenwog Dyfi Junction a'r gorsaf-feistr (Gray Evans) oedd yr unig berson sefydlog yn y stori. Trawsnewidiai'r platfform o fod yn glinig i famau beichiog, ystafell newid y tîm pêl-droed, a llwyfan opera i fod yn sinema trawiadol dros ben.

Gwnaethpwyd cyfanwaith o'r holl unedau gan y gerddoriaeth, a oedd yn effeithiol dros ben. Perfformiwyd yn raenus gan y Boneddigesau Bethan Meils a Catrin Edwards ac ar adegau perai'r miwsig i sgript digon cyffredin droi'n gampwaith — gwych oedd yr olygfa gerddorol o ymrafael Merched y Wawr a'r W.I. gyda'r actorion yn gwneud iawn â'r gair 'bitch'

Cafwyd actio egnïol drwy gydol y perfformiad (does dim rhyfedd i Mari Gwilym gael ei chymryd yn sâl) a rhaid canmol Cefin Roberts am ddefnyddio'i lais arbennig i'r eithaf — yn enwedig yn ei berfformiad o 'Carmen'. Bydd lle iddo yn y Cwmni Opera cyn hir a diau y bydd Mei yn chwilio am ran mewn 'mad movie'.

Dyma un o'r perfformiadau mwya boddhaol yn Gymraeg ers tro byd ac os cawn gynhyrchiadau tebyg yn y dyfodol ni fydd unrhyw reswm dros bryderu am safon na derbyniad y theatr yn Gymraeg.

M.R.

Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf., Lower Cathedral Road, Caerdydd; Ffôn: (0222) 396262. C1220